

# Diogelwch nwy yn eich cartref

**Cofrestr Diogelwch Nwy yw'r rhestr swyddogol o beirianwyr nwy sydd â'r hawl gyfreithiol i weithio ar eich offer nwy. Mae hyn wedi disodli cofrestriad CORGI.**

Mae pob peiriannydd cofrestredig Diogelwch Nwy yn cario cerdyn adnabod i ddangos i chi eu bod wedi'u cofrestru gyda Diogelwch Nwy. Edrychwch yn ofalus ar gerdyn adnabod Diogelwch Nwy y peiriannydd bob amser a gwneud yn siŵr eu bod yn gymwys i wneud y gwaith sydd angen ei wneud arnoch.

Mae offer nwy sy'n cael ei osod yn wael ac yn cael gwasanaeth gwael yn gallu achosi i nwy ollwng, tanau, ffrwydradau a gwenwyn carbon monocsid. Mae'r Gofrestr yno i'ch amddiffyn rhag gwaith nwy anniogel.

Licence No. 3456789



3456789

Name  
**Patrick Brian Glover**  
Company  
**Glover & Sons  
Gas Installers**

Registration No. 123456  
Valid from 01/04/2017  
Expires 31/03/2018

To confirm the validity of this card please contact Gas Safe Register on: **0800 408 5500** or online at: [www.GasSafeRegister.co.uk](http://www.GasSafeRegister.co.uk)

If this card is found please return to Gas Safe Register, PO Box 6804, Basingstoke, RG25 4NB



Domestic	Gas	LPG	Non-Domestic	Gas	LPG
Pipework	31/03/18	31/03/18			
Cooker	31/03/18	31/03/18			
Fire	31/03/18	31/03/18			
Water Heater	31/03/18	31/03/18			
Gas Boiler	31/03/18	31/03/18			
Comb Analysis	31/03/18	31/03/18			

The cardholder is deemed competent only in the categories of work identified by a date.

3456789

Cerdyn adnabod swyddogol peirianwyr cofrestredig Diogelwch Nwy



**I gael cyngor ynghylch diogelwch nwy ac i ddod o hyd i beiriannydd sydd wedi'i gofrestru gyda Diogelwch Nwy a'u gwirio, ewch i [www.GasSafeRegister.co.uk](http://www.GasSafeRegister.co.uk) neu ffonio 0800 408 5500**



# Defnyddiwch yr awgrymiadau diogelwch nwy canlynol i fod yn ddiogel yn eich cartref:

- ✓ Defnyddiwch beiriannydd cofrestredig Diogelwch Nwy yn unig i osod, trwsio neu roi gwasanaeth i offer nwy.
- ✓ Gallwch ddod o hyd i beiriannydd sydd wedi'i gofrestru gyda Diogelwch Nwy neu ei wirio yn [www.GasSafeRegister.co.uk](http://www.GasSafeRegister.co.uk) neu drwy ffonio **0800 408 5500**.
- ✓ Edrychwch yn ofalus ar gerdyn adnabod Cofrestr Diogelwch Nwy eich peiriannydd bob amser.
- ✓ Dylid rhoi gwasanaeth rheolaidd i offer nwy a gwneud yn si r bob blwyddyn eu bod yn ddiogel.
- ✓ Os ydych yn rhentu eich cartref, yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i'ch landlord gynnal a chadw'r offer nwy y maent yn eu darparu a threfnu archwiliad diogelwch nwy bob blwyddyn. Gwnewch yn siŵr bod eich landlord yn rhoi copi i chi o Gofnod Diogelwch Nwy'r Landlord.
- ✓ Mae carbon monocsid yn nwy gwenwynig ac ni allwch ei weld na'i arogl. Y chwe phrif arwydd a symptom o wenwyn carbon monocsid yw cur pen, cyfog, pendro, diffyg anadl, llewygu a cholli ymwybyddiaeth.



**Os byddwch yn arogl nwy neu'n meddwl efallai bod nwy yn gollwng yn rhywle, ffoniwch y rhif argyfwng nwy: **0800 111 999****

